



Cynllun Iaith Gymraeg S4C

a baratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

DATGANIAD

Mae S4C fel corff cyhoeddus wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd S4C yn gweithredu'r egwyddor honno wrth drafod â'r cyhoedd yng Nghymru. Nid yw'r Cynllun fodd bynnag yn gymwys i gynnwys y gwasanaethau teledu a ddarlledir gan S4C a/neu unrhyw wasanaethau, nwyddau neu gymwysiadau sydd yn atodol i raglenni, a ddarperir gan S4C.

1. Cyflwyniad

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

- 1.1 Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth weithredu busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.
- 1.2 Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan y Ddeddf i hyrwyddo a hwyluso defnydd yr iaith, a darparu ar gyfer paratoi a chymeradwyo cynlluniau iaith Gymraeg. Diddymwyd y Bwrdd ar 31 Mawrth 2012, a throsglwyddwyd nifer o bwerau'r Ddeddf i Gomisiynydd y Gymraeg.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- 1.3 Nod Mesur 2011 yw cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr y Gymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. O ganlyniad i'r Mesur hwn, a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2011, mae'r Gymraeg bellach yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae S4C yn ymrwymedig i weithredu'n gadarnhaol i ymwneud â gofynion Mesur newydd y Gymraeg.
- 1.4 Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi ac adolygu cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Dyma gynllun S4C.
- 1.5 Mae'n disgrifio sut y bydd S4C yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, i'r graddau ei fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol gwneud hynny.
- 1.6 Mae'r Cynllun hwn yn cwmpasu'r gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd fel sefydliad cyhoeddus (ond nid fel darlledwr) yng Nghymru. (Am eglurhad pellach, gweler y nodyn esboniadol ar ddiwedd y Cynllun os gwelwch yn dda).
- 1.7 Yn y Cynllun hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn golygu unigolion, pobl gyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr a phobl eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o dan ystyr y term 'cyhoedd'.
- 1.8 Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu mewn swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

2. Cefndir y Sefydliad

- 2.1 S4C yw'r unig sianel deledu Cymraeg yn byd. Fel corff cyhoeddus, mae S4C yn gweithredu o dan Ddeddfau Darlledu 1990 a 1996 a Deddf Gyfathrebiadau 2003 gyda'r prif amcanion o ddarparu gwasanaethau teledu o safon uchel.
- 2.2 Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae'n comisiynu cwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru i wneud y rhan fwyaf o'i rhaglenni. Mae ITV Cymru hefyd yn cael ei gomisiynu i gynhyrchu rhaglenni. Mae BBC Cymru yn cynhyrchu deg awr yr wythnos o raglenni ar gyfer S4C, gan gynnwys y newyddion a'r ddrama Pobol y Cwm.

- 2.3 Mae S4C yn darlledu dros 115 awr o raglenni bob wythnos - o chwaraeon, drama a cherddoriaeth i ffeithiol, adloniant a digwyddiadau. Ar deledu, ar-lein, ar alw. S4C - eich dewis chi. Mae S4C yn cynnig gwasanaethau helaeth ar gyfer plant.
- 2.4 Ers Ebrill 2013, mae'r rhan fwyaf o gyllid S4C yn dod o'r ffi drwydded, trwy Ymddiriedolaeth y BBC , gyda chanran o'n cyllid yn dod o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) llywodraeth Prydain. Mae hefyd gan S4C rai pweiau i gynhyrchu incwm masnachol, er enghraifft trwy werthu hysbysebion.
- 2.5 Mae pencadlys S4C yn Llanisien, Caerdydd, ac mae canolfan arall yng Nghaernarfon. Bydd S4C, fodd bynnag, yn gweithredu mewn ardaloedd eraill o Gymru, trwy Gymru gyfan a thu hwnt yn rheolaidd drwy ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo, arddangosfeydd, presenoldeb mewn eisteddfodau, sioeau amaethyddol a llawer amgylchiad arall sy'n berthnasol i'r Cymry fel cenedl.
- 2.6 Mae Gwifren Gwylwyr S4C yn gweithredu gwasanaeth ateb ymholiadau ar y ffôn, drwy e-bost, llythyr a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth ar agor saith niwrnod yr wythnos.
- 2.7 Mae'r gwaith o ddarparu gwasanaethau isdeitlo, sain ddisgrifio ac arwyddo yn cael ei wneud gan gyflenwyr arbenigol i S4C. Mae gwefan S4C ar gael yn y ddwy iaith.
- 2.8 Ar gyfer ymgyrchoedd hyrwyddo S4C, defnyddir amrywiaeth o gyfryngau, megis y wasg, hysbysfyrddau, y rhyngrwyd a.y.b. Mae S4C yn cynnal ymchwil i batrymau gwyllo, ymateb i raglenni, effeithiolrwydd ymgyrchoedd marchnata ac i dreialu ambell fformat newydd. Gall y rhain fod ar ffurf grwpiau trafod, holiaduron neu fesuryddion electronig. Mae S4C hefyd yn delio gyda chyflenwyr gwasanaethau eraill ar wahân i raglenni. Yn eu plith mae cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau atodol ond hanfodol i'r broses o gyflwyno ein gwasanaethau.
- 2.9 Fel rhan o'n darpariaeth hyrwyddo a marchnata, mae S4C yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd drwy dull dosbarthu post uniongyrchol neu ar ffurf electronig a chedwir rhestr o'r rhai sydd wedi dymuno derbyn ein cyhoeddiadau ar fâs data. Mae S4C hefyd yn delio ag ymholiadau'r wasg a'r cyfryngau torfol ac yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth a datganiadau ar eu cyfer.
- 2.10 Mae S4C yn ymrwmo i ddatblygu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y corff dros fywyd y cynllun iaith Gymraeg. Ceir amcanion isod a fydd yn cynorthwyo S4C i gwrdd â'r nod hwn.
- 2.11 Cynorthwyo staff S4C i weithio yn y Gymraeg trwy:
- Hwyluso mwy o ddefnydd o Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol o ran cyfraniadau llafar, agendâu a chofnodion;
 - Cyhoeddi ffurflenni, llythyrion safonol a thempledi electronig mewnol yn ddwyieithog;
 - Cynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth e-bostio yn fewnol;
 - Cynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gohebiaeth seml, yn fewnol a gyda'r cyhoedd, drwy ddrafftio yn Gymraeg yn gyntaf.
- 2.12 Cynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth trwy'r Gymraeg
- Cynyddu'r arferiad o sgrifennu negeseuon e-bost yn Gymraeg.

- Gosod pecyn meddalwedd Cysgliad, sy'n cynnwys gwirydd sillafu Cymraeg (CySill) ac adnodd geiriadurol (CysGair) ar gyfrifiaduron personol.
- Dysgu sut i osod acenion (e.e. to bach) mewn testunau Cymraeg.
- Darparu lle / llefydd ar y fewnwyd i osod cronfa o gyfieithiadau parod, bônt yn ddogfennau, llythyrau safonol / ffurflenni neu ymadroddion defnyddiol.
- Dolenni cyswllt ag adnoddau geirfaol a gramadegol.
- Dolenni cyswllt ag adnoddau dysgu ar-lein.
- Meddalwedd dysgu neu ymarfer Cymraeg (e.e. pecyn Cymarfer).
- Gosod rhyngwynebau Cymraeg ar gyfrifiaduron personol.

3. Cynllunio a darparu gwasanaethau

3.1 Polisiau, deddfwriaeth a mentrau

- 3.1.1 Bydd ein polisiau, ein gweithgareddau a'n gwasanaethau yn gyson â'r Cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a byddant, pryd bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd.
- 3.1.2 Pan fyddwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu neu gyflwyno polisiau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn ceisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r Cynllun hwn.

3.2 Darparu gwasanaethau

- 3.2.1 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.
- 3.2.2 Bydd S4C felly yn gofyn i gwmnïau a sefydliadau eraill sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn enw S4C i gydymffurfio â'r Cynllun hwn.
- 3.2.3 Golyga hyn y bydd S4C yn
- Ymrwymo i sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau a gaiff eu contractio allan.
 - Ymrwymo i sicrhau trwy drefniadau contractio y gall, y bydd, a bod yr asiant neu'r contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o Gynllun Iaith S4C wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei oruchwyliaeth.
- 3.2.4 Er mwyn gweithredu hyn byddwn yn
- darparu gweithdrefnau ysgrifenedig i staff ar gyfer delio ag asiantau a chontractwyr, a phrosesau i sicrhau bod eu staff yn cadw atynt;
 - manylu ar y gofynion o safbwynt defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro, contractau ac amodau grantiau a benthyciadau;
 - arolygu gweithredu'r cynllun gan asiantau a chontractwyr.
- 3.2.5 Mae cyfran uchel iawn o'r gwaith o gynhyrchu rhaglenni a darparu gwasanaethau atodol i S4C yn cael ei wneud gan gwmnïau annibynnol a

chyflenwyr allanol. Mae'r berthynas gyfreithiol a chytundebol rhwng y rhain ag S4C yn un fasnachol. O dan ein Telerau Masnach ac wrth gyflawni ei oblygiadau dan y drwydded i S4C, disgwylir y bydd y cwmnïau cynhyrchu, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn parchu egwyddorion Cynllun Iaith Gymraeg S4C. Bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y cwmnïau annibynnol a chyflenwyr allanol er mwyn eu hysbysu o'u dyletswyddau.

3.2.6 Bydd S4C hefyd yn parhau i'w hannog i fabwysiadu a gweithredu cynlluniau eu hunain yn wirfoddol.

3.2.7 Y mae modd i gwmnïau annibynnol a chyflenwyr allanol dderbyn cymorth wrth weithredu'r anghenion hyn drwy gysylltu â: Comisiynydd y Gymraeg

3.3 Safonau ansawdd

3.3.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

4. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

4.1.1 Bydd ein harfer safonol fel a ganlyn. (Bydd yr isod yn berthnasol i ohebiaeth electronig yn ogystal â gohebiaeth bapur.)

4.1.2 Bydd S4C yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

4.1.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoui ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamserau targed ar gyfer ateb yr un peth â'r amserau targed ar gyfer ateb i llythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg.

4.1.4 Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr at sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog.

4.1.5 O ran gohebiaeth bersonol byddwn yn sefydlu dewis iaith y derbynnydd ac ymateb yn ôl y dewis.

4.1.6 Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.

4.1.7 Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

4.1.8 Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

4.1.9 O ran llythyron yn unig, bydd unrhyw lythyr yn y Gymraeg yn cael ei lofnodi cyn ei ddanfon.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

4.2.1 Ein harfer safonol yw sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.

4.2.2 Bydd staff ein switsfwrdd yn ateb gyda chyfarchiad dwyieithog. Bydd ein prif switsfwrdd yn defnyddio neges ddwyieithog ar ei beiriant ateb. Bydd gweddill ein staff yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac yn defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.

- 4.2.3 Os bydd y galwr yn dymuno siarad Cymraeg, bydd ein switsfwrdd yn ceisio trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 4.2.4 Os na fydd siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael, rhoddir dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol, naill ai i aros i siaradwr Cymraeg ffonio nôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno eu hymholiad yn Gymraeg drwy lythyr neu'n electronig.
- 4.2.5 Os bydd y galwr yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond na all y person sy'n cymryd yr alwad wneud hynny, byddant yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 4.2.6 Pan fyddwn yn gosod llinellau cymorth, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, (ac eithrio llinellau cymorth neu wasanaethau tebyg sy'n atodol i raglenni) byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbysebhir hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth iaith Saesneg.

4.3 Cyfarfodydd cyhoeddus

- 4.3.1 Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus, oni fyddwn yn gwybod y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.
- 4.3.2 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog, ac yn nodi a fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.
- 4.3.3 Byddwn yn hysbysu'r rheini sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael – ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.
- 4.3.4 Ein harfer safonol fydd darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg – a bod adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.3.5 Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, ein harfer safonol fydd sicrhau bod staff dwyieithog cymwys yn mynychu, fel y bo'r angen.

4.4 Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.4.1 Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf a, lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod aelod cymwys o staff yn bresennol i ymateb i'r gofyn ieithyddol.
- 4.4.2 Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn yn cynnig iddynt barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r mater drwy ohebu yn Gymraeg.
- 4.4.3 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddefnyddio fideo-gynadleda ac offer tebyg.

4.5 Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.5.1 Pan fyddwn yn comisiynu arolygon cyhoeddus, ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

- 4.5.2 Gofynnir i'r rhai sy'n ymateb a hoffent ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg.

5. Ein delwedd gyhoeddus

5.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion Corfforaethol

- 5.1.1 Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu corfforaethol a ddefnyddiwn yng Nghymru eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac eithrio fel y nodir isod.
- 5.1.2 Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd - a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.
- 5.1.3 O bryd i'w gilydd bydd ymgyrch farchnata uniaith, yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unig, yn briodol er mwyn targedu cynulleidfaoedd penodol yn well.
- 5.1.4 Yn yr un modd bydd rhai deunyddiau megis cylchgronau a gyhoeddir yn rheolaidd yn cael eu cyhoeddi yn uniaith Gymraeg, gyda chrynodeb yn y Saesneg a bydd atodiadau mewn papurau bro yn ymddangos yn y Gymraeg yn unig.
- 5.1.5 Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Dim ond yn Gymraeg y cyhoeddir hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- 5.1.6 Bydd iaith hysbysebion radio yn dibynnu ar broffil iaith gwrandawyr yr orsaf radio benodol.
- 5.1.7 Bydd llinellau ymateb a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.
- 5.1.8 Pan fydd angen staff i ofalu am stondinau ac arddangosfeydd, ein harfer safonol fydd sicrhau bod staff dwyieithog cymwys yn bresennol, fel y bo'n briodol.

5.2 Cyhoeddiadau Corfforaethol

- 5.2.1 Ein harfer safonol fydd cyhoeddi deunydd corfforaethol sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.
- 5.2.2 Os oes yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - a'n harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.2.3 Os na fydd y dogfennau ar gael am ddim, ni ddylai pris dogfen ddwyieithog fod yn fwy na phris cyhoeddiad un iaith - a bydd pris dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.
- 5.2.4 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd corfforaethol fydd ar gael yn electronig neu fel arall.

5.3 Gwefannau Corfforaethol

- 5.3.1 Mae ein gwefannau yn ddwyieithog. Mae botwm dewis gan y cyhoedd i gysylltu â'r fersiwn Cymraeg neu'r fersiwn Saesneg.
- 5.3.2 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir ynglŷn â dylunio gwefannau.

5.4 Ffurflenni Corfforaethol a deunydd esboniadol cysylltiedig

- 5.4.1 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob ffurflen gorfforaethol a deunydd esboniadol cysylltiedig a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru yn gyfan gwbl ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau.
- 5.4.2 Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os bydd un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

5.5 Hunaniaeth gorfforaethol

- 5.5.1 Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, ein sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu - a deunydd fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cardiau mynediad, a gwahoddiadau. Mae'r holl ddogfennau argraffedig sy'n ymwneud â thrafodion ariannol S4C yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys anfonebau, talebau, derbynebau, dogfennau siec a dogfennau cyflogau.
- 5.5.2 Byddwn yn defnyddio deunydd brandio Cymraeg yn unig ar gyfer rhai mentrau.

5.6 Arwyddion yng Nghymru

- 5.6.1 Bydd unrhyw arwyddion sy'n cael eu llunio gan S4C yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.
- 5.6.2 Os bydd angen i unrhyw arwyddion wahanu'r ddwy iaith, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac eglurder a'r Gymraeg yn gyntaf neu'n gyfochrog â'r Saesneg.
- 5.6.3 Mewn arddangosfeydd parhaol neu dros dro bydd yr holl arwyddion iechyd a diogelwch yn ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd yr arddangosfeydd un ai'n Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog yn ôl gofynion yr achlysur.
- 5.6.4 Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwyddion, yn cynnwys arwyddion electronig.

5.7 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

- 5.7.1 Bydd hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau corfforaethol cyhoeddus a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a

ddosberthir yng Nghymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg.

- 5.7.2 O ran hysbysiadau recriwtio staff, (ac yn ddarostyngedig i gymal 5.7.5 isod) byddwn yn hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg, gydag esboniad cryno yn Saesneg. Lle nad oes angen y gallu i siarad Cymraeg ar gyfer cyflawni'r swydd, byddwn yn hysbysebu yn ddwyieithog.
- 5.7.3 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un a chânt eu cyhoeddi fel un fersiwn dwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 5.7.4 O ran y cyfryngau Saesneg, byddwn yn hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg, gydag esboniad cryno yn Saesneg.
- 5.7.5 Gellir cyhoeddi yn Saesneg hysbysiadau recriwtio sy'n ymddangos mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg a ddosberthir ledled y DU, oni bai ei bod yn hanfodol i ddeiliad y swydd siarad Cymraeg, ac os hynny, gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg.
- 5.7.6 Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol neu hysbysiadau corfforaethol cyhoeddus sy'n ymddangos yn unrhyw le arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

5.8 Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

- 5.8.1 Cyhoeddir datganiadau corfforaethol i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg - neu yn ôl dewis iaith y sefydliad cyfryngol neu'r cyhoeddiad sy'n eu derbyn.
- 5.8.2 Byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.
- 5.8.3 Pan fyddwn yn gosod datganiadau i'r wasg ar ein gwefan, ein harfer yw eu gosod yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5.9 Gweithgaredd Corfforaethol Arall

- 5.9.1 Bydd S4C o dro i dro yn cynnal neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforaethol eraill i hybu neu hyrwyddo S4C yn gorfforaethol ac er mwyn creu ewyllys da, e.e. cystadlaethau, ysgoloriaethau a noddi digwyddiadau neu wasanaethau allanol.
- 5.9.2 Lle bo S4C yn cynnal unrhyw gystadleuaeth neu'n cynnig ysgoloriaeth, bydd unrhyw ddeunydd a gyhoeddir i gyd-fynd â hwy yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog (yn dibynnu ar natur a thestun y gystadleuaeth/ysgoloriaeth).
- 5.9.3 Lle bo S4C yn cyfrannu at unrhyw weithgareddau neu ddigwyddiadau a drefnir neu a gynhelir gan gyrrff allanol, e.e. yn cynnig gwobrwyon ar gyfer cystadleuaeth a gynhelir gan gorff allanol neu'n noddi digwyddiad a drefnir gan gorff neu fudiad allanol, bydd unrhyw ddeunydd a gyhoeddir gan S4C yn uniongyrchol mewn perthynas â'r fath weithgaredd yn ddwyieithog a, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, bydd S4C yn annog trefnydd y gweithgaredd i gydnabod cyfraniad S4C a natur ei gwasanaethau, ond ni fydd gan S4C unrhyw reolaeth dros iaith y gweithgaredd ei hun nac ychwaith yn ceisio dylanwadu arni.

6. Gweithredu'r Cynllun

6.1 Staffio

- 6.1.1 Bydd S4C yn sicrhau fod siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau priodol ar gael i gyfathrebu â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.1.2 Bydd S4C yn nodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ac fe nodir hyn yn yr hysbysiadau swyddi perthnasol.
- 6.1.3 Bydd S4C yn sicrhau bod pob person sy'n gyfrifol am benodi staff yn S4C yn ymwybodol o ofynion y Cynllun hwn ac yn asesu'r angen am ruglder yn y Gymraeg cyn penodi ar gyfer unrhyw swydd yn S4C.

6.2 Recriwtio

- 6.2.1 Oherwydd natur S4C a'i hamcanion, mae'n amlwg y bydd S4C yn ystyried gallu ieithyddol yn un o'r nifer o sgiliau perthnasol wrth benodi staff. Nodir hynny yn yr hysbysebion ac yn y disgrifiadau swyddi. Bydd ffurflenni cais S4C yn ddwyieithog a'r cyfathrebu gyda phob ymgeisydd wedi hynny yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd i gwblhau'r ffurflenni.
- 6.2.2 Lle bo S4C yn ystyried y gallu i siarad yr iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd benodol ond heb lwyddo i ddenu ymgeisydd cymwys sy'n siarad Cymraeg, yna fe fydd S4C yn ystyried cynnig y swydd i ymgeisydd di-gymraeg ond ar yr amod ei fod ef neu hi yn cyrraedd lefel foddhaol o ruglder mewn cyfnod penodol.
- 6.2.3 Bydd S4C yn mabwysiadu system asesu gydnabyddedig i fesur rhuglder lle bo galw.

6.3 Hyfforddiant iaith

- 6.3.1 Bydd S4C yn annog a chefnogi ei staff i ddysgu Cymraeg ac yn sicrhau fod gwersi dysgu Cymraeg ar gael i'r aelodau hynny o'i staff sy'n dymuno dysgu o'r newydd neu loywi eu hiaith, prun ai yw eu swyddi yn galw am wybodaeth o'r Gymraeg ai peidio.

6.4 Hyfforddiant galwedigaethol

- 6.4.1 Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bo'n ymarferol.

6.5 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- 6.5.1 Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn, yn cael ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- 6.5.2 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynorthwyo swyddogion technoleg gwybodaeth.

6.6 Gweithio mewn partneriaeth

- 6.6.1 Pan fyddwn yn gweithredu o fewn partneriaeth, byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn.

6.6.2 Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth y mae sefydliad arall yn ei harwain, lle bo hynny'n bosib bydd ein mewnbwn ni yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio â'r Cynllun hwn.

7. Trefniadau mewnol

- 7.1 Mae'r Cynllun hwn wedi ei gymeradwyo gan Awdurdod S4C sydd wedi rhoi awdurdod llawn i'r Prif Weithredwr a Thîm Rheoli S4C ei weithredu. Bydd yr Awdurdod yn monitro gweithrediad y Cynllun hwn .
- 7.2 Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr S4C yn rhoi eu cefnogaeth lawn i'r Cynllun ac yn bwriadu pwysleisio i'r staff eu bod am ei weld yn cael ei weithredu.
- 7.3 Bydd S4C yn sicrhau fod holl egwyddorion y Cynllun hwn yn cael eu cyfathrebu i staff S4C.
- 7.4 Bydd gan reolwyr y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 7.5 Cyhoeddir y Cynllun hwn i'n staff a'r cyhoedd. Caiff ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan. Y cyfeiriad yw www.s4c.cymru. Byddwn yn hysbysu cynrychiolwyr ein cyflenwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun hwn.
- 7.6 Fe fyddwn yn ymgymryd ag unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad sydd wedi ei ddisgrifio'n benodol yn y Cynllun hwn, mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn y Cynllun hwn.

8. Y gwasanaethau sydd wedi eu heithrio o'r Cynllun hwn – nodyn esboniadol

- 8.1 Er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth neu amheuaeth, nid yw'r Cynllun hwn yn gymwys neu'n weithredol i gynnwys y gwasanaethau teledu a ddarlledir gan S4C a/neu unrhyw wasanaethau, nwyddau neu gymwysiadau sydd yn atodol i'w rhaglenni a ddarperir gan S4C, megis (ond heb gyfyngiad):
 - gwefannau rhaglenni;
 - gwasanaethau band llydan neu ar-lein neu wasanaethau diwifr;
 - llyfrau, cylchgronau a/neu gynnyrch sain (e.e. cryno-ddisgiau neu dapiau sain) sy'n ymgorffori deunydd neu elfennau o raglenni neu'n seiliedig arnynt;
 - copïau o raglenni neu ddeunydd rhaglenni ar ffurf tapiau fideo neu ddisgiau amryddawn digidol;
 - cymwysiadau rhyngweithiol.

9. Monitro

- 9.1 Bydd ein gweithdrefnau monitro a chofnodi presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran gweithredu'r Cynllun hwn, fel y bo'n briodol.
- 9.2 Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Gomisiynydd y Gymraeg, ar eu cais, gan amlinellu'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun hwn.

10. Adolygu a diwygio'r Cynllun

- 10.1 Byddwn yn adolygu'r Cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'i roi ar waith. Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r Cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau i'r Cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau,

neu i amgylchiadau yr ydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall

10.2 Ni wneir unrhyw newidiadau i'r Cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

11. Cwynion ac awgrymiadau i'w wella

11.1 Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r Cynllun hwn, neu awgrymiadau i'w wella, at yr uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am y Cynllun, yn y cyfeiriad canlynol:

Catrin Hughes Roberts
Cyfarwyddwr Partneriaethau
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Neu drwy anfon neges e-bost at: catrin.hughes.roberts@s4c.cymru



Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith S4C

Targed	Cyfrifoldeb	Dyddiad Cwblhau
Polisiâu, mentrau a gwasanaethau		
Darparu canllawiau i staff S4C o'r angen i ystyried goblygiadau'r iaith Gymraeg.	Adnoddau Dynol	Awst 2010
Ysgrifennu at y sawl sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn enw S4C.	Prif Weithredwr	Mai 2010
Diwygio ein contractau safonol a'n templedi contractau er mwyn cyfeirio at y Cynllun Iaith Gymraeg.	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol	Medi 2010
Sicrhau bod staff sy'n dyfarnu contractau yn ymwybodol o'r rhan hon o'r cynllun.	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol	Medi 2010
Cyfathrebu		
Gosod y cynllun iaith ar wefan S4C	Cyfarwyddwr Partneriaethau	Mai 2010
Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn unol â'r cynllun iaith	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mai 2010
Darparu canllawiau i sicrhau bod staff yn gwybod sut i ymdrin â gohebiaeth	Pennaeth Adnoddau Dynol	Rhan parhaol o'r cylchdro gwerthuso blynyddol
Sicrhau gwasanaeth cwbl ddwyieithog ar y switsfwrdd a'r Gwifren Gwylwyr	Cydlynnydd gweinyddiaeth ac adnoddau Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Gwybodaeth	Yn parhau
Cynnig cyfarpar cyfieithu yn ein	Ysgrifennydd yr Awdurdod	Yn parhau

cyfarfodydd cyhoeddus		
Cydbwysedd iaith yn ein hysbysebion radio	Pennaeth Marchnata	Yn parhau
Gwefannau		
Ystyriaeth i Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Cyfarwyddwr Darlledu a Dosbarthu	Medi 2010
Ystyried mabwysiadu system achredu i gynorthwyo swyddogion technoleg gwybodaeth wrth lunio a dylunio gwefannau dwyieithog	Cyfarwyddwr Darlledu a Dosbarthu	Dan ystyriaeth
Hysbysebion recriwtio staff		
Sicrhau bod Adnoddau Dynol yn dilyn y canllawiau ar hysbysebion o'r fath	Pennaeth Adnoddau Dynol	Rhan o'r broses gwerthuso - Mai 2010
Hyfforddiant Iaith		
Cynnig gwersi Cymraeg i unrhyw aelod o staff sy'n dymuno hynny	Adnoddau Dynol	Yn parhau
Monitro		
Adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd	Pennaeth Materion Corfforaethol Cyfarwyddwr Corfforaethol	Pob mis Mehefin o Fehefin 2010 Cyfrifoldeb wedi trosglwyddo wedi i'r Pennaeth Materion Corfforaethol ymadael